**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD 20 IONAWR 2026, DRWY ZOOM AM 7:00 Y.H.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Rhys Parry (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd). Cemlyn Jones, Richard Robinson, Dylan Jones, Gwynedd Williams, Berwyn Parry Jones, Philip Roberts, Hefin Jones, Colin Swatridge, Beca Brown

**YMDDIHEIRIADAU:** Y Cynghorwyr Ann Lawton, Alan Pritchard

**Cyfieithydd**: Sioned Jones (Lingo Cyf)

**Clerc**: Meirion Jones

**1545. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod

**1546 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1547. Datgan buddiant.**

Fe ddatganodd y Cynghorydd Hefin Jones fuddiant personol yn eitem 1556(b) ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth

Eitem 1557 (a) fe ddatganodd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones fuddiant ar sail ei fod yn eistedd ar Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd pan fydd y cais yn dod ger bron y Pwyllgor. Fe ymadawodd y cyfarfod a ni chymerodd ran yn y drafodaeth.

**1548. I dderbyn cofnodion cyfarfod 16 Rhagfyr 2025**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1549. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

Dim

**1550. I dderbyn ac i gymeradwyo adroddiad o bwyllgor y fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd y pwyllgor fel a ganlyn

Yn cyfarfod o'r Is-bwyllgor y Fynwent, 6.1.26.
Penderfynwyd ar flaenoriaethau am 26/27

Adolygu Rheolau'r Fynwent
Adolygu ffioedd y Fynwent.
Materion Iechyd a Diogelwch, e.e.. sicrwydd am gymwysterau torrwr beddi.
Gweithio gyda chontractwr i uwch radio cofebion categori Un yn dilyn Asesiad Risg blynyddol yn y fynwent.
Adnewyddu stêcs tu nol i gerrig beddi, lle bod angen.
Lefeli a chreu llwybrau yn y gofod newydd yn y fynwent.
Cystadlu yn " Mynwent y Flwyddyn" yr ICCM
Hefyd trafodwyd cyflwr y lon o'r ffordd fawr I'r Eglwys-angen dod a hyn i sylw Cyngor Gwynedd eto.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1551. I gymeradwyo ffioedd y fynwent ar gyfer 2026 / 2027**

Argymhelliad y pwyllgor oedd i gynyddu ffioedd y fynwent o gwmpas 10% ar gyfer 2026 / 2027.

**Penderfynwyd:**

a) Cynyddu'r ffioedd o gwmpas 10%
b) Y clerc i baratoi rhybuddion perthnasol
c)

**1552. I dderbyn ac i gymeradwyo adroddiad o'r Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac ymysg ei flaenoriaethau ar gyfer 2026/ 2027 mae'r canlynol

Parhau i gadw gofal am y llwybrau cyhoeddus
Darparu arwyddion newydd ar gyfer mynediad i Llanrug a Cwm y Glo
Parhau i ymchwilio i gytundebau parthed goleuadau Nadolig
Edrych am y posibilrwydd o greu map digidol i'r ardal
Parhau i gario allan asesiad risg ar y gampfa
Darparu cysgodfa bws newydd ar gyfer arosfa bws ger yr Ysgol Gynradd
Parhau i gynnal a chadw y diffibriliwr
Cadw golwg ar sefyllfa Clymog Siapan
Torri coed a plannu coed o'r newydd
Archwilio lleoliadau biniau halen
Cytundeb torri gwair y caeau chwarae i'w hysbysebu
Parhau i gadw clwb ieuenctid yn agored a edrych fewn i'r posibilrwydd o gynyddu i ddwy noson yr wythnos ar gyfer mis Medi 2026.

Cyfarfod nesaf wedi drefnu ar gyfer 24 o Fawrth 2026.

**Penderfynwyd:**
a) Derbyn a diolch am yr adroddiad
b) Awdurdodi gwariant ar gyfer codi cysgodfa bws newydd ger Ysgol Gynradd Llanrug

**1553. I dderbyn adroddiad o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y pwyllgor eu bod wedi cyfarfod ar 13 o Ionawr 2026. Pwrpas yn cyfarfod oedd i ystyried cyllideb ar gyfer 2025/2026 os oedd angen ei addasu a cytuno'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2026/2027. Adroddwyd fod y pwyllgor wedi sgriwteneiddio'r gyllideb yn ofalus ac roedd y pwyllgor yn hapus gyda'r gyllideb ddrafft o gymryd i ystyried gwariant y cyngor ar gyfer 2026/2027.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1554. I gymeradwyo cyllideb ar gyfer 2026 / 2027**

**Penderfynwyd:** Cymeradwywyd y gyllideb ar gyfer 2026/2027

**1555. I osod praesept ar gyfer 2026/2027**

**Penderfynwyd:** Codi praesept ar gyfer 2026/2027 o £120,000

**1556. I gymeradwyo ceisiadau am grant**

a) **Sefydliad Coffa, Llanrug**
b) **Eco'r Wyddfa**

**Penderfynwyd:**

a) **Sefydliad Coffa - £3,000**
b) **Eco'r Wyddfa - £1,000**

**1557. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'. https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C25/0651/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Cais cynllunio llawn ar gyfer 17 annedd fforddiadwy, ynghyd a chreu mynediad newydd i gerbydau a ffordd fynedfa fewnol, cau 2 bwynt mynediad amaethyddol presennol, creu mynediad newydd i wasanaethu is-orsaf newydd, gwaith ymestyn Ffordd Glanffynnon ynghyd a gwaith tirlunio, draenio a gwaith arall cysylltiedig. Full planning application for 17 affordable dwellings, together with creating new vehicle access and an internal entrance road, closing 2 existing agricultural access points, creating new access to serve a new sub-station, extension works to

Glanffynnon Road along with landscaping, drainage, and other related works.
**Ymgeisydd:** (Adra)
**Asiant:** Mr Sion Roberts (Cadnant Planning)
**Cyfeiriad:** Tir Oddi Ar Ffordd Glanffynnon, Llanrug, LL55 4PT
**Cyfeirnod Grid:** 253645.89838832873, 363055.38469775394
**Ward:** Llanrug

**Parish / Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Cefnogi'r cais gan ychwanegu'r sylwadau canlynol

1. Sicrhau fod popeth posib yn cael ei wneud i liniaru a helpu gweledd o gwmpas y datblygiad ar gyfer traffig

2. Sicrhau fod y gwaith ddim yn cael effaith handwyol ar yr is-adeiledd dwr yn waelod ystâd Glanffynnon

b) **Rhif y Cais:** C25/0932/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Newid defnydd rhan o adeilad allanol presennol i fewn i cyfleuster gofal dydd i gwn, yn gysylltiol gyda'r maes carafanau teithiol a maes gwersylla Change of use of part of existing outbuilding into a dog daycare facility in-conjunction with existing touring caravan and campsite
**Ymgeisydd:** Heledd and Nathan Tandy
**Asiant:** Mr Gwyn Humpherys (Roger Parry & Partners LLP)
**Cyfeiriad:** Llys Derwen Camping & Caravan Site, Caravan Park, Llys Derwen Ffordd Minffordd, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RD
**Cyfeirnod Grid:**
253896.99999999997, 362913.99999999977
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Cefnogi'r cais

c) **Rhif y Cais:** C25/0837/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Cais ôl-weithredol ar gyfer garej fel y'i hadeiladwyd, ynghyd â lleihad yn uchder y to i 3.9m (crib). Retrospective application for an as-built garage, along with reduction in roof height to 3.9m (ridge).
**Ymgeisydd:** Mr Darren Jones
**Asiant:** Mr Alan Owen (A.L.I Buiding Design)
**Cyfeiriad:** Tŷ'n Winllan Lôn Groes, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AF
**Cyfeirnod Grid:** 253551.99999999988, 363816
**Ward:** Llanrug
**Parish / Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Cefnogi'r cais

Daeth y cyfarfod i ben am 20:05

Arwyddwyd

Cadeirydd: Dyddiad: